Maddau'r cwbl!

(maddeuant / cyfeillgarwch / caredigrwydd)

Yn nhref Dijon, yn Ffrainc, roedd esgob caredig yn byw. Roedd yn garedig wrth bawb. Byddai'n helpu pawb oedd mewn angen. Pan fyddai cnoc ar y drws byddai'r esgob ei hun yn mynd i weld pwy oedd yno. "Dewch i mewn," meddai, "a sut fedra i eich helpu?" oedd y cwestiwn bob tro. Adeg y Nadolig byddai pobl y dref i gyd yn tyrru tua'r drws. Byddai pob un yn mynd oddi yno gydag anrheg fechan. Wnaeth yr esgob ddim gwrthod neb.

Un diwrnod cyrhaeddodd dyn dieithr i'r dref. Roedd yn ddyn mawr, cyhyrog a'i ddillad yn garpiau. "Does gen i ddim bwyd," meddai wrth un o drigolion y dref. Yr ateb a gafodd oedd, "Ewch i dŷ'r esgob, sy'n byw ym mhen pella'r dref. Bydd ef yn sicr o'ch helpu. Cewch ddigon o fwyd gan yr esgob." I ffwrdd â'r dyn dieithr tua chartref yr esgob.

Eisteddai'r esgob wrth ei ddesg pan glywodd gnocio wrth y drws. Cododd ar unwaith a mynd i agor y drws. Safai dyn cydnerth, a'i ddau lygaid yn melltennu, wrth y drws.

"Rwyf yn chwilio am le i gysgu," meddai'r dyn dieithr. Jean Valjian ydi fy enw a rydwi wedi bod yn y carchar am bron i ugain mlynedd a does neb yn barod i roi lloches i mi."

"Dewch i mewn," meddai'r esgob yn dyner wrtho. "Cewch bryd o fwyd efo mi a gwely cynnes am y noson."

Cafodd Jean bryd bwyd blasus. Wrth iddo fwyta'i swper sylwodd yr esgob fod y dyn dieithr yn edrych o'i gwmpas. Roedd ei lygaid ymhob man. Ar ôl iddyn nhw orffen bwyta aeth y ddau i eistedd i'r lolfa. Yma eto roedd y dyn dieithr yn edrych ar bopeth oedd yn yr ystafell.

"Wel," meddai'r esgob, "mae hi'n amser i mi noswylio."

"Mae'n well i minnau fynd i'r gwely hefyd," meddai Jean, "i mi gael cychwyn yn brydlon bore fory."

Y noson honno roedd Jean yn troi a throsi yn ei wely esmwyth. Dechreuodd feddwl am y celfi hardd oedd yng nghartref yr esgob. Cofiodd yn sydyn am y platiau arian, a'r canwyllbrennau arian oedd ar ben y silff ben tân. Clywodd y cloc yn taro tri o'r gloch. "Mae'n siŵr fod yr esgob yn cysgu'n sownd erbyn hyn," meddai wrtho'i hun. Cododd yn ddistaw ac aeth i lawr y grisiau.

Aeth i mewn i'r ystafell fwyta. Yn y tywyllwch chwiliodd am

y platiau arian. Rhoddodd chwech ohonynt yn ei fag a llithrodd allan i dywyllwch y nos.

Pan gododd yr esgob yn y bore chwiliodd am y dyn dieithr ymhob man. Doedd dim golwg ohono'n unman. Pan aeth i'r ystafell fwyta sylwodd fod y platiau arian wedi mynd. Yn sydyn daeth cnoc ar y drws. Pwy oedd yna ond dau blismon ac yn sefyll rhyngddyn nhw oedd y dyn dieithr.

"Digwydd ei weld yn rhedeg oddi yma wnaethon ni a'r llestri yn ei fag," meddai un o'r plismyn.

"O, rwy'n falch eich bod wedi dychwelyd," meddai'r esgob. "Roeddwn i wedi meddwl rhoi'r canwyllbrennau arian i chi hefyd."

Aeth yn ôl i'r lolfa a rhoi'r ddau ganhwyllbren iddo.

"O! wedi rhoi'r llestri yma iddo fo roeddech chi," meddai un o'r plismyn. "Roedden ni'n meddwl mai lleidr oedd hwn."

"Na roeddwn i wedi rhoi'r llestri arian iddo er mwyn iddo ddechrau byw bywyd newydd, gonest," meddai'r esgob.

Ni allai Jean gredu ei glustiau. Aeth ar ei daith yn ddyn gwahanol. Cadwodd y canwyllbrennau i gofio am yr esgob oedd wedi maddau iddo.

Adnod: "Byddwch yn dirion wrth eich gilydd, yn dyner eich calon, yn maddau i'ch gilydd fel y maddeuodd Duw yng Nghrist i chwi." Effesiaid 4:32

Gweddi: O Dduw, gwna fi yn garedig a thrugarog wrth bawb y bydda i'n dod ar eu traws heddiw. Amen.

Trafod:

- Sut fyddech chi'n mynd ati i ddisgrifio'r esgob?
- Sut oeddech chi'n disgwyl i'r hanes yma orffen?